



Adran Gwaith
a Phensiynau

Caxton House, Tothill Street, London SW1H 9DA

Gwefan: www.dwp.gov.uk/cymraeg E-bost at Weinidogion: ministers@dwp.gsi.gov.uk

20 Mai 2013

Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddais y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac yn nodi'r egwyddorion ar gyfer rhoi cymorth i hawl wyr sydd ag anghenion ychwanegol neu gymhleth i'w helpu i wneud a rheoli ceisiadau Credyd Cynhwysol a pharatoi ar gyfer gwaith.

Roedd y Fframwaith yn gofyn am sylwadau ar y dull arfaethedig ac rwyf yn falch o allu cadarnhau ein bod wedi derbyn 149 o ymatebion o bob rhan o lywodraeth leol, tai ar sectorau gwirfoddol. Bydd yr adborth hwn yn amhrisiadwy wrth i ni ddatblygu'r partneriaethau cyflenwi lleol a fydd yn cynorthwyo hawl wyr yn y system newydd.

Rydym yn cofnodi a dadansoddi'r adborth yn fanwl a byddwn yn ei ddefnyddio mewn tair prif ffordd:

- I gwblhau agweddau o ddyluniad y fframwaith rydym angen iddo mewn lle cyn i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno yn ehangach - er enghraifft, bydd y manylion am sut bydd cyllid yn cael ei drefnu a'i reoli;
- I lywio'r gwaith o ddatblygu cytundebau partneriaeth cyffredinol a lleol a fydd yn cael eu rhoi ar waith dros y misoedd sydd i ddod;
- Er mwyn ein helpu i ddatblygu fframwaith diwygiedig a fydd yn darparu llinellau sylfaen cynllunio ar gyfer 2014/15.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'n gryf agwedd Partneriaethau Darparu at ddarparu cefnogaeth leol, a thynnodd sylw at ystod o bartneriaethau presennol sydd â'r potensial i ddarparu gwasanaethau lleol ar gyfer hawl wyr Credyd Cynhwysol. Roedd y rhain yn cynnwys Partneriaethau Cynllunio Cymunedol yn yr Alban, Grwpiau Diwygio Lles dan arweiniad yr awdurdod lleol a Phartneriaethau Adfywio Economaidd.

Yn ogystal, mae llawer ohonoch o'r farn ei bod yn bwysig bod partneriaethau yn cynnwys ystod eang o sefydliadau er mwyn sicrhau gwybodaeth leol dda a gwneud y gorau o wasanaethau presennol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi lleoleiddio a byddwn yn tynnu sylw at enghreifftiau o bartneriaethau cynhwysol ac arloesol yn y ddogfen fframwaith diwygiedig a fydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Hydref eleni.

Mae rhai ohonoch wedi awgrymu ychwanegiadau at y rhestr o gategorïau hawlwr bregus a nodir yn y fframwaith neu bwysleisio pwysigrwydd o feddwl y tu hwnt i "gategorïau" wrth ddarparu gwasanaethau. Rwy'n cytuno â'r farn hon ac rwyf yn awyddus i sicrhau, er y dylai cefnogaeth i hawlwydd fod yn gyfannol ac yn gydgyssylltiedig, dylai hefyd gael ei deilwra i gwrdd ag anghenion gwahanol ac unigol.

Mae llawer ohonoch hefyd wedi awgrymu bod angen gwahaniaethu yn fwy clir rhwng yr hawlwr hynny sydd ond angen ychydig o gymorth i ymgysylltu â Chredyd Cynhwysol, a'r rhai y gallai fod angen cefnogaeth fwy hirdymor i symud tuag at annibyniaeth ariannol. Byddwn yn parhau i drafod y materion hyn gyda'n grwpiau cyfeirio gyda golwg ar adlewyrchu ein dysgu yn ein hymagwedd at ariannu a chanlyniadau, ac yn y fframwaith diwygiedig.

Roedd yr angen am eglurder ynghylch cyllid a chanlyniadau cysylltiedig yn bryder canolog mewn nifer o ymatebion. Mae gwaith eisoes ar y gweill, drwy'r Tasglu Gwasanaethau Cymorth Lleol, i ddatblygu offeryn cyllid manwl. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid i ddatblygu ymagwedd i ganlyniadau sy'n cydbwyso'r angen am sicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer darparwyr gwasanaeth gyda'r angen i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer hawlwr a gwerth am arian i'r trethdalwr. Bydd yr offeryn cyllid yn ymdrin â chwestiynau allweddol, fel y cynnig isaf ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol, a'r ffordd y dylai ariannu a chanlyniadau adlewyrchu amrywiadau mewn anghenion lleol (e.e. ystyried ffactorau fel natur wledig a lefelau amddifadedd). Rydym yn gobeithio gallu dweud mwy am yr offeryn cyllid dros y misoedd nesaf.

Wrth ddatblygu'r fframwaith rydym wedi edrych ar syniadau gan sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda hawlwr, ac wedi gweithio mewn partneriaeth agos â Chymdeithasau Awdurdodau Lleol. Wrth i ni weithio tuag at gyflwyno Credyd Cynhwysol, a Gwasanaethau Cymorth Lleol cysylltiol, yn genedlaethol byddwn yn parhau gyda'r sgysiau hyn gydag awdurdodau lleol, darparwyr tai a'r sector gwirfoddol a chymunedol trwy waith y Tasglu a Grwpiau Gorchwyl.

Yn lleol, mae ein Rheolwyr Dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith eisoes yn gweithio i gefnogi datblygiad partneriaethau a fydd yn darparu gwasanaethau i gefnogi hawlwr. Bydd yr ymatebion i'r fframwaith, yn ogystal â dysgu o'r Prosiectau Arddangos Taliad Uniongyrchol a Chynlluniau Peilot a arweinir gan yr Awdurdodau Lleol yn llywio'r gwaith hwn.

Bydd Credyd Cynhwysol yn gwneud i waith dalu - fel bod pobl yn well eu byd mewn gwaith. Mae'n hanfodol bod hawlwr sydd ag anghenion ychwanegol yn cael eu gefnogi i fod yn llwyddiannus wrth ddefnyddio'r system newydd, er mwyn symud tuag at annibyniaeth a, lle bynnag y bo'n briodol, i ddod o hyd i waith neu waith sy'n talu'n well.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio mewn partneriaeth â chi i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**Yr Arglwydd Freud
Gweinidog dros Ddiwygio Lles**

Gwefan ar gyfer y fframwaith: www.dwp.gov.uk/ucla